# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Medi 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13483

## 154

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.31

### 3 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diweddariad Addysg ar RAAC

Dechreuodd yr eitem am 15.02

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Adolygiad Annibynnol ac adroddiadau 2020-21 Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd

Dechreuodd yr eitem am 15.41

### 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Terfyn cyflymder diofyn 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

Dechreuodd yr eitem am 16.14

## 6 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol - TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl

## Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**NNDM8350** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 29.8, er mwyn caniatáu i NNDM8349 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 12 Medi 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8349** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ynni i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Troednodyn:

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 25 Gorffennaf 2023, a 01 Medi 2023 a 11 Medi 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0340/220340.pdf.

**Dogfennau Ategol**

Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Gweinidog Newid Hinsawdd

Ymateb Llywodraeth Cymru

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Lywodraeth y DU *(Seasneg yn unig)*

Llythyr gan Lywodraeth y DU at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Saesneg yn unig)*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 36 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

**NNDM8342** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8341 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 12 Medi 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

Dechreuodd yr eitem am 17.39

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8341** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bill Ardrethu Annomestig, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ebrill 2023 a 1 Awst 2023, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

https://bills.parliament.uk/bills/3442

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 10 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 17.56

**NNDM8344** Lee Waters (Llanelli)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol , er mwyn caniatáu i NNDM8343 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Medi 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8343** Lee Waters (Llanelli)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 20 Mawrth 2023.

Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) gerbron y Senedd ar 14 Gorffennaf 2023.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 15 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.52.

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.57

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Medi 2023**